

CRONFA BENSIWN CAERDYDD A BRO MORGANNWG

DATGANIAD CYDYMFFURFIO - LLYWODRAETHU

Paratowyd a chyhoeddwyd y Datganiad hwn gan Gyngor Dinas Caerdydd fel Awdurdod Gweinydd Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg, yn unol â rheoliad 55 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'i diwygiwyd) (sef "Rheoliadau CPLIL").

Dirprwyo Swyddogaethau

Mae Cyngor Dinas Caerdydd wedi dirprwyo ei swyddogaethau dan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Adnoddau. Y dirprwyaethau perthnasol yng Nghyfansoddiad y Cyngor yw:

FS28

Yn unol ag unrhyw bolisi neu strategaeth y mae'r Awdurdod wedi gwneud penderfyniad yn ei gylch o ran cymeradwyo penderfyniadau'n ymwneud â rheoli'r gronfa pensiwn a gweinyddu buddion pensiwn.

FS51

Cyflawni swyddogaethau'n ymwneud â phensiynau llywodraeth leol ac ati yn unol â Rheoliadau dan Adran 7, 12 neu 24 neu Ddeddf blwydd-daliadau 1972; a swyddogaethau'n ymwneud â phensiynau, lwfansau ac arian rhodd yn unol â Rheoliadau dan Adran 18(3A) Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

Yr Adran Bensiynau yn Neuadd y Sir sy'n cyflawni'r gwaith o weinyddu'r Gronfa Bensiwn. Caiff pob penderfyniad pwysig e.e. arfer y disgresiwn a roddwyd i'r awdurdod gweinyddu dan reoliadau CPLIL, ei wneud a'i gofnodi yn unol â chynllun y Cyngor ar gyfer gwneud penderfyniadau a ddirprwywyd. Fel rhan o'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau, mae'r Adran yn rhwym wrth bolisïau, gweithdrefnau a rheoliadau mewnlol y Cyngor.

Caiff y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau gyngor ar faterion buddsoddi gan Banel Ymgynghori ar Fuddsoddi. Mae gwybodaeth fanwl am rôl y panel ar gael yn Natganiad o Egwyddorion Buddsoddi y Gronfa.

Mae'r panel y cynnwys:

- Y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau
- Tri o aelodau etholedig Cyngor Dinas Caerdydd
- Un aelod etholedig o Gyngor Bro Morgannwg
- Dau ymgynghorydd annibynnol

Mae'r panel yn cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn fel arfer i adolygu perfformiad buddsoddiadau'r Gronfa a rhoi cyngor ar y strategaeth fuddsoddi. Mae'r panel hefyd yn ystyried agweddau eraill ar weinyddu'r CPLIL a all fod â goblygiadau i fuddsoddiadau e.e. y gwerthusiad actiwaraidd teirblynyddol. Mae'r panel yn cael cyflwyniadau gan bob rheolwr buddsoddi gweithredol bob blwyddyn a hefyd yn cyfweld rheolwyr ar y rhestr fer pan fydd yn penodi cwmnïau buddsoddi i ofalu am ei fuddsoddiadau.

Mae Fforwm y Cyflogwyr yn cyfarfod yn flynyddol a chaiff yr holl gyflogwyr sy'n cyfrannu at y Gronfa wahoddiad iddo. Mae'r Fforwm yn ystyried Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y Gronfa ac yn cael cyflwyniadau ar faterion megis newidiadau i reoliadau a gwerthusiadau actiwaraid.

Mae Fforwm yr Undebau Llafur yn cyfarfod yn flynyddol hefyd ac yn ystyried materion tebyg iawn i'r rhai a ystyrir gan Fforwm y Cyflogwr gyda chynrychiolwyr undebau llafur y prif gyflogwyr.

Cydymffurfio â Chanllawiau Statudol

Safon Cydymffurfio	Trefniadau ar waith/cam gweithredu a gyflawnwyd	A yw'r cam gweithredu yn cydymffurfio â'r egwyddor? Ydy/Nac ydy/Yn Rhannol	Rheswm dros ddiffyg cydymffurfiaeth (os yn berthnasol)
Egwyddor A - Strwythur			
<i>Cyfrifoldeb y pwyllgor a sefydlir gan y cyngor sy'n ei benodi yw rheoli'r gwaith o weinyddu'r buddion a rheoli asedau'r gronfa yn strategol.</i>	Mae'r dirprwyaethau wedi'u nodi'n glir yng Nghyfansoddiad y Cyngor	Ydy	
<i>Mae cynrychiolwyr cyflogwyr CPLIL sy'n cymryd rhan yn y cynllun, cyrff cydnabyddedig ac aelodau'r cynllun (gan gynnwys aelodau sy'n bensiynwyr ac aelodau â phensiwn gohiriedig) yn aelodau o un ai'r prif bwyllgor neu'r pwyllgor eilaidd a sefydlwyd i ategu gwaith y prif bwyllgor.</i>	Mae'r ddau brif gyflogwr yn cael eu cynrychioli ar y Panel Ymgynghori ar Fuddsoddi. Mae cyflogwyr eraill yn mynychu'r Fforwm Cyflogwyr blynyddol ac yn cael eu cynrychioli ar y Bwrdd Pensiynau Lleol. Nid yw aelodau'r cynllun yn cael eu cynrychioli ar y panel ond yn cael eu cynrychioli yn Fforwm yr Undebau Llafur a'r Bwrdd Pensiynau Lleol.	Yn rhannol	
<i>Pan fo pwyllgor neu banel eilaidd wedi'i</i>	Dd/B		

Safon Cydymffurfio	Trefniadau ar waith/cam gweithredu a gyflawnwyd	A yw'r cam gweithredu yn cydymffurfio â'r egwyddor? Ydy/Nac ydy/Yn Rhannol	Rheswm dros ddiffyg cydymffurfiaeth (os yn berthnasol)
<i>sefydlu, bod y strwythur yn sicrhau dull cyfathrebu cyson drwyddo draw.</i>			
<i>Pan fo pwyllgor neu banel eilaidd wedi'i sefydlu, bod o leiaf un sedd ar y prif bwyllgor wedi'i neilltuo i aelod o'r pwyllgor neu banel eilaidd.</i>	Dd/B		
Egwyddor B - Cynrychiolaeth			
<p><i>Y caiff yr holl randdeiliaid allweddol y cyfle i gael eu cynrychioli yn strwythur y prif bwyllgor neu'r pwyllgor eilaidd. Mae'r rhain yn cynnwys:-</i></p> <p><i>awdurdodau sy'n cyflogi (gan gynnwys cyflogwyr nad ydynt yn aelodau o'r cynllun, e.e. cyrff cydnabyddedig);</i></p> <p><i>ii) aelodau'r cynllun (gan gynnwys aelodau'r cynllun sy'n bensiynwyr neu sydd â phensiwn gohiriedig);</i></p> <p><i>iii) arsylwyr annibynnol proffesiynol; ac</i></p> <p><i>iv) ymgynghorwyr arbenigol (ar sail ad</i></p>	<p>Mae'r ddau awdurdod unedol yn cyflogi mwy na 85% o aelodau gweithredol ac maent yn cael eu cynrychioli. Nid yw cyflogwyr eraill yn cael eu cynrychioli ar hyn o bryd.</p> <p>Nid yw aelodau'r cynllun yn cael eu cynrychioli ar hyn o bryd.</p> <p>Mae dau ymgynghorydd annibynnol yn mynychu holl</p>	Yn rhannol	

Safon Cydydffurfio	Trefniadau ar waith/cam gweithredu a gyflawnwyd	A yw'r cam gweithredu yn cydydffurfio â'r egwyddor? Ydy/Nac ydy/Yn Rhannol	Rheswm dros ddiffyg cydydffurfiaeth (os yn berthnasol)
<i>hoc</i>).	gyfarfodydd y panel.		

<p><i>Pan fo aelodau lleyg yn aelodau o'r prif bwyllgor neu bwyllgor eilaidd, eu bod yn cael eu trin yn gyfartal o ran cael gweld y papurau, hyfforddiant ac yn cael pob cyfle i gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau, boed hynny gyda hawliau pleidleisio neu heb hawliau pleidleisio.</i></p>	<p>Mae holl aelodau'r panel yn cael gweld yr un papurau a manteisio ar yr un cyfleoedd hyfforddiant.</p>	<p>Ydy</p>	
Egwyddor C – Dethol Aelodau Lleyg a'u Rôl			
<p><i>Mae aelodau'r pwyllgor neu banel yn llwyr ymwybodol o'u statws, eu rôl a'r swyddogaeth y disgwylir iddynt eu perfformio ar un ai'r prif bwyllgor neu bwyllgor eilaidd.</i></p>	<p>Mae rôl y Panel Ymgynghori ar Fuddsoddi wedi'i nodi'n glir yn y SIP a dogfennau allweddol eraill.</p>	<p>Ydy</p>	
Egwyddor D - Pleidleisio			
<p><i>Mae polisi'r awdurdodau gweinyddu unigol ar hawliau pleidleisio yn glir a thryloyw, gan gynnwys o ran cyfiawnhau pam nad ydynt yn rhoi hawliau pleidleisio i bob corff neu grŵp sy'n cael eu cynrychioli ar brif bwyllgorau'r CPLIL.</i></p>	<p>Rôl y Panel Ymgynghori ar Fuddsoddi yw cynghori'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau. Felly nid oes unrhyw angen i ystyried pleidleisio ar faterion.</p>	<p>Ydy</p>	
Egwyddor E - Hyfforddi/Amser Hwyluso/Treuliau			
<p><i>Mewn perthynas â'r ffordd y mae'r penderfyniadau statudol a pherthnasol yn cael eu gwneud gan yr awdurdod gweinyddu, mae</i></p>	<p>Mae aelodau'r panel yn cael gwybod am gyfleoedd hyfforddiant.</p>	<p>Ydy</p>	

<i>polisi clir ar waith o ran hyfforddi, amser hwyluso a thalu treuliau i'r aelodau sy'n ymwneud â'r broses o wneud penderfyniadau.</i>			
<i>Pan fo polisi felly ar waith, mae'n cynnwys holl aelodau'r pwyllgor, is-bwyllgorau, paneli ymgynghorol neu unrhyw ffurf arall ar fforwm eilaidd.</i>		Ydy	
Egwyddor F – Cyfarfodydd (amlder/cworwm)			
<i>Mae prif bwyllgor neu bwyllgorau awdurdod gweinyddu yn cyfarfod o leiaf bob chwarter.</i>	Mae'r Panel Ymgynghori ar Fuddsoddi yn cyfarfod bob chwarter	Ydy	
<i>Bod pwyllgor neu banel eilaidd awdurdod gweinyddol yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn ac mae'r cyfarfodydd yn cael eu cydamseru â chyfarfod y prif bwyllgor..</i>	Dd/B		
<i>Mae awdurdodau gweinyddu nad ydynt yn cynnwys aelodau lleig yn eu trefniadau llywodraethu ffurfiol yn darparu fforwm y tu allan i'r trefniadau hynny er mwyn cynrychioli buddiannau rhanddeiliaid allweddol.</i>	Mae'r Fforwm Cyflogwyr a'r Fforwm Undebau Llafur yn cyfarfod bob blwyddyn	Ydy	

Egwyddor G - Mynediad			
<i>Yn amodol ar unrhyw reolau yng nghyfansoddiad cynghorau, mae holl aelodau prif bwyllgorau a phaneli a phwyllgorau a phaneli eilaidd yn cael gweld papurau, dogfennau a chyngor sy'n cael eu rhoi gerbron cyfarfodydd y prif bwyllgor.</i>	Mae papurau yn cael eu dosbarthu i holl aelodau'r paneli cyn y cyfarfodydd.	Ydy	
Egwyddor H - Cwmpas			
<i>Mae awdurdodau gweinyddu wedi cymryd camau i gynnwys materion ehangach sy'n ymwneud â'r cynllun yng nghwmpas eu trefniadau llywodraethu.</i>	Mae'r Panel Ymgynghori ar Fuddsoddi yn ystyried yr holl faterion sy'n berthnasol i fuddsoddi. Caiff materion ehangach eu trafod yn Fforwm y Cyflogwyr a Fforwm yr Undebau Llafur.	Ydy	
Egwyddor I - Cyhoeddusrwydd			
<i>Mae awdurdodau gweinyddu yn cyhoeddi gwybodaeth am eu trefniadau llywodraethu yn y fath fodd fel y gall rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y ffordd y caiff y cynllun ei weinyddu fynegi diddordeb mewn bod yn rhan o'r trefniadau hynny.</i>	Mae'r holl ddogfennau llywodraethu yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.	Ydy	

Bwrdd Pensiynau Lleol

Mae Cylch Gorchwyl Bwrdd Pensiynau Lleol Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg wedi cael eu cyhoeddi ar wefan y Gronfa:

www.caerdydd.gov.uk/pensiynau

CHRISTINE SALTER

Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau

31 Mawrth 2015